PRIF SWYDDOG IECHYD CYHOEDDUS AMGYLCHEDDOL

Y GYFARWYDDIAETH IECHYD POBLOGAETHAU

LLYWODRAETH CYMRU

BRIFF I'R YMGEISYDD A DISGRIFIAD O'R SWYDD

Cynnwys

1. **Neges gan Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
2. **Cefndir Llywodraeth Cymru**
3. **Diben y Swydd a'r Prif Gyfrifoldebau**
4. **Manyleb y Person**
5. **Sut i Wneud Cais**
6. **Y Broses Ddethol**
7. **Telerau'r Penodiad**
8. **Atodiadau**

A. Datganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil

B. Cod y Gwasanaeth Sifil

1. **Neges gan Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru**

Diolch ichi am ddangos diddordeb yn y rôl bwysig hon yn fy uwch-dîm.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau yn rhan gyffrous o Lywodraeth Cymru, o fewn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ein huchelgais yw dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn iddynt gael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach. Mae'r uchelgais hon i'w gweld yn ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol: “Cymru Iachach”

Mae gan ein Gweinidogion gynlluniau uchelgeisiol i wireddu'r genhadaeth honno a hynny trwy ein Strategaeth Genedlaethol: Symud Cymru Ymlaen sy’n nodi rhaglen y Llywodraeth i hybu gwelliannau yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan ddatblygu Cymru sy’n ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac yn dysgu, ac unedig a chysylltiedig.

Mae Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hynny. Maent yn fesurau uchelgeisiol, gyda'r nod o wneud gwahaniaeth i bawb, ar bob cam yn eu bywydau.

Ar y cyd â'r rhaglen, mae'r amcanion llesiant a gyhoeddwyd yn nodi sut y byddwn yn defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i helpu i gyflawni'r rhaglen lywodraethu a gwneud y gorau o'n cyfraniad i'r 7 nod llesiant cenedlaethol a rennir.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bron i bob agwedd ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu polisi, deddfwriaeth, cyllid, datblygu'r gweithlu yn y sector iechyd, a chyflawni gweithredol. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau.

Mae'r agenda iechyd y cyhoedd yn arwain at gydweithio agos â phob un o adrannau eraill Llywodraeth Cymru fel Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, yr Economi, Sgiliau, ac Adnoddau Naturiol. Cylch gwaith y swydd hon yw fy nghynghori a’m cefnogi i, y Gyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chydrannau eraill o Lywodraeth Cymru a'r gwasanaethau iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru, er mwyn darparu arweiniad wrth ddatblygu polisi iechyd cyhoeddus amgylcheddol ac i lywio'r ymateb i fygythiadau newydd sy'n dod i'r amlwg.

Hoffwn eich annog i ystyried cyflwyno cais i ymuno â'r tîm.
Dymuniadau gorau,
Frank

2. Cefndir Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig ein gwlad. Mae ganddi gyllideb flynyddol o ryw £15 biliwn, ac mae'n gyfrifol am brif agweddau bywyd cyhoeddus Cymru, gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, yr economi a thrafnidiaeth, ac amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Mae setliad datganoli Cymru wedi esblygu mewn ffordd ddeinamig ers i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei sefydlu ym 1999, a bydd yn parhau i ehangu drwy bwerau newydd Deddf Cymru 2017 a fydd yn dod yn weithredol y flwyddyn nesaf.

Mark Drakeford yw Prif Weinidog Cymru. Mae wedi penodi tîm o Weinidogion Cymru a Chwnsler Cyffredinol i wasanaethu yn ei Gabinet, sef y prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, corff deddfu o 60 o Aelodau etholedig sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd.

Mae gweithlu o ryw 5,000 o weision sifil yn cefnogi Gweinidogion Cymru, gyda rhyw hanner ohonynt yn gweithio yng Nghaerdydd, a'r gweddill yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled y wlad. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd yn Llundain a Brwsel hefyd ac ystad dramor sy'n canolbwyntio ar waith masnachu a buddsoddi. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol gan bedwar Cyfarwyddwr Cyffredinol sydd i gyd yn arwain portffolio gwahanol, ond eang ei gwmpas, o fusnes y llywodraeth.

Mae gan Lywodraeth Cymru amcan cydraddoldeb a'i nod yw bod yn gyflogwr sy'n esiampl i eraill ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn rhan annatod o waith y sefydliad − gan amrywio o'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y Bwrdd, a rhwydweithiau amrywiaeth egnïol a gefnogir gan hyrwyddwyr sy'n aelodau staff ar lefel uwch, i bennu targedau amrywiaeth er mwyn gwella niferoedd y staff sy'n dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, er enghraifft, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a staff anabl a menywod mewn swyddi ar lefel uwch. Rydym wedi sefydlu tîm sy'n cefnogi staff anabl i sicrhau bod yr addasiadau rhesymol sydd arnynt eu hangen i wneud eu gwaith yn cael eu cyflawni. Mae amryw o uwch-arweinwyr yn gweithredu fel noddwyr grwpiau amrywiaeth ac ar draws adrannau.

Mae'r Llywodraeth a etholwyd ym mis Mai 2016 wedi amlinellu ei blaenoriaethau yn ei Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, a fydd yn cael ei gwireddu drwy strategaeth genedlaethol − *Ffyniant i Bawb*. Y nod yw mynd i'r afael â heriau sylweddol yn ystod ei thymor o bum mlynedd, ac mae'n cynnig agenda flaengar ar gyfer gwella ansawdd bywyd pobl Cymru. Yr uchelgais strategol cyffredinol yw creu Cymru hunanhyderus, ffyniannus ac iach, a chreu cymdeithas lle mae pawb yn cael tegwch. Yng ngoleuni Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017, mae newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i bwerau cyllidol Gweinidogion Cymru, gan gynnwys datganoli pwerau trethi a benthyca. Yn y dyfodol, bydd dros 25% o'r £15 biliwn sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru yn dod o drethi Cymru. Mae hwn yn gam arall hynod bwysig ar y daith ddatganoli, sydd â goblygiadau sylweddol i'r Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru ac ystod o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru i gasglu ac i reoli trethi datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi blaenoriaethau clir i Gymru yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Ochr yn ochr ag effaith telerau ymadawiad y DU, gan gynnwys mynediad i farchnadoedd a newidiadau i fewnfudo, mae'r ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd yn her sylweddol i'r setliad datganoli a'r berthynas rhwng gwledydd y DU. Mae'n hanfodol bod buddiannau Cymru'n cael eu cydnabod yn llawn yn nhrefniadau llywodraethu'r DU yn y dyfodol. Mae Cymru yn wlad sy'n gweithredu ar lwyfan byd-eang gyda hanes cryf o ddenu buddsoddiad mewnol. Mae angen i Lywodraeth Cymru gynrychioli buddiannau Cymru mewn negodiadau masnachol dilynol gyda'r DU a rhoi busnesau Cymru mewn sefyllfa i wneud y mwyaf o'r marchnadoedd newydd a'r cyfleoedd newydd wrth iddynt godi. Hefyd, fel cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru

yn dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella'r gwaith o ddatblygu polisïau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl Cymru.

3. Diben y Swydd

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bron i bob agwedd ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu polisi, deddfwriaeth, cyllid, datblygu'r gweithlu yn y sector iechyd a chyflawni gweithredol.

Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau.

Mae'r amcanion polisi allweddol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn deillio o'r Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen' sy'n nodi rhaglen y Llywodraeth i hybu gwelliant yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gyflwyno Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac yn egnïol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, yn unedig ac yn gysylltiedig. Mae'r agenda iechyd cyhoeddus yn arwain at gydweithio agos â phob un o adrannau eraill Llywodraeth Cymru fel Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, yr Economi, Sgiliau, ac Adnoddau Naturiol.

Diben y swydd hon yw cynghori a chefnogi'r Prif Swyddog Meddygol, Cyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cydrannau eraill o Lywodraeth Cymru a'r gwasanaethau iechyd y cyhoedd ehangach yng Nghymru, er mwyn darparu arweiniad wrth ddatblygu polisi iechyd cyhoeddus amgylcheddol ac i lywio'r ymateb i fygythiadau newydd sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r swydd wedi'i chynllunio i gefnogi'r Prif Swyddog Meddygol yn ei ddyletswyddau. Bydd deiliad y swydd yn cynorthwyo ym mhob agwedd ar iechyd cyhoeddus amgylcheddol, rheoleiddio, datblygu polisi ac arferion proffesiynol cyfoes. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn weithio heb oruchwyliaeth i gyflawni prosiectau a mentrau penodol gan gynnwys datblygu a gweithredu deddfwriaeth. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gynrychioli Llywodraeth Cymru mewn ystod eang o feysydd iechyd cyhoeddus amgylcheddol. Tra'n ymgymryd â rôl gynghori annibynnol ar draws Llywodraeth Cymru, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gymryd rôl arweiniol ar gyfer yr Is-adran Iechyd Cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb polisi dros faterion iechyd cyhoeddus amgylcheddol.

Bydd deiliad y swydd yn adrodd i Ddirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau.

Y Tasgau Allweddol

Darparu cyngor proffesiynol annibynnol, yn rhagfynegol ac yn adweithiol, a rhoi arweiniad wrth ddatblygu polisi i sicrhau gwell iechyd a llesiant i bobl Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu polisi, deddfwriaeth ac arferion iechyd cyhoeddus amgylcheddol. Hefyd, drwy arweinyddiaeth effeithiol, annog a chryfhau ymgysylltu ar draws y system (ar draws y GIG, Llywodraeth Leol, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff perthnasol eraill) wrth ddatblygu, a chyflwyno ymatebion cydgysylltiedig priodol i faterion iechyd cyhoeddus amgylcheddol yng Nghymru. Bydd y materion yn fras yn rhychwantu pedwar prif faes iechyd cyhoeddus amgylcheddol h.y. diogelu iechyd amgylcheddol aciwt (gan gynnwys parodrwydd ar gyfer argyfyngau, cydnerthedd, ymateb), materion sy'n ymwneud â diogelu iechyd yr amgylchedd cronig (e.e. aer, dŵr, ansawdd tir), pryderon iechyd cyhoeddus amgylcheddol cyfoes (e.e. newid yn yr hinsawdd, rhyngweithiadau sector/peryglon), a meysydd datblygu iechyd cyhoeddus amgylcheddol (e.e. gwyliadwriaeth/olrhain, gweithlu a datblygiad proffesiynol).

Mae prif dasgau'r swydd hon fel a ganlyn:

- Darparu mewnbwn a chyngor priodol ar amrywiaeth o fentrau i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu*, i hyrwyddo'r broses o roi mentrau iechyd cyhoeddus amgylcheddol ar waith er mwyn lleihau'r risgiau, yr effeithiau a'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad â pheryglon amgylcheddol;

  * Mae rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Lywodraethu i'w gweld yn: https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu

- Rhoi cyfeiriad ac arweiniad strategol i gefnogi datblygiad gwelliannau iechyd cyhoeddus amgylcheddol ar draws y system gyfan, gan gynnwys: cynllunio ar y cyd yn seiliedig ar flaenoriaethau a rennir, cymhwysedd y gweithlu, gallu a gwydnwch, a gwyliadwriaeth iechyd cyhoeddus amgylcheddol.

- Arwain ar ddatblygu strategaeth iechyd cyhoeddus amgylcheddol ar gyfer Cymru.

- Darparu mewnbwn iechyd cyhoeddus amgylcheddol priodol i'r Grŵp Argyfyngau Sifil, y gweithgor ar ddeunyddiau Cemegol, Biolegol, Radiolegol, Niwclear a Ffrwydrol (CBRNE) a Grŵp Marwolaethau Torfol Cymru;

- Cydweithio yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau, gyda GIG Cymru, Public Health England, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus Lleol, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff eraill y Llywodraeth a Byrddau Iechyd ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd;

- Gweithio gyda Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol i ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag canlyniadau unrhyw achos o glefyd egsotig, neu achosion o glefyd endemig mewn anifeiliaid, neu filheintiau, a hybu iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru;

- Cysylltu â chydweithwyr proffesiynol mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill a phob sector o'r proffesiwn drwy sefydliadau cynrychioliadol, adrannau iechyd eraill ac Ewrop er mwyn nodi, annog a lledaenu arfer gorau.

Bydd y Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yn:

- Cael mynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog Meddygol a bydd yn rhan o'r is-adran iechyd cyhoeddus ar gyfer rheoli o ddydd i ddydd. Bydd yn gweithio'n agos gyda'r holl weithwyr iechyd proffesiynol, Penaethiaid Proffesiwn a swyddogion polisi o fewn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Poblogaethau;

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu natur y swyddi cymorth a swyddogaethau cysylltiedig er mwyn helpu'r swyddogaeth CEPHO o fewn Llywodraeth Cymru;

- Rhoi cyngor annibynnol, diduedd ar faterion yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus amgylcheddol i Lywodraeth Cymru, adrannau eraill y Llywodraeth, Llywodraeth Leol a GIG Cymru;

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal gweithlu iechyd yr amgylchedd sy'n fedrus ac yn ddigonol a defnyddio'r sgiliau hynny'n llawn er budd darpariaeth iechyd cyhoeddus amgylcheddol yng Nghymru;

- Cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, paneli technegol perthnasol, Bwrdd Rheoli

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, y GIG a chyrff/rhanddeiliaid Iechyd y Cyhoedd; cymryd rhan weithredol yn y broses rheoli argyfwng

- Cynnal cysylltiadau â Llywodraeth y DU gweinyddiaethau datganoledig eraill, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chyfoeth Naturiol Cymru ar faterion yn ymwneud â materion iechyd cyhoeddus amgylcheddol;

- Dirprwyo ar ran y Prif Swyddog Meddygol fel y'i cyfarwyddwyd ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn.

Meini Prawf sy'n Benodol i'r Swydd

Hanfodol

- Gradd Anrhydedd mewn Iechyd yr Amgylchedd neu'r hyn sy'n ei rhagflaenu.

4. Manyleb y person

- Profiad proffesiynol fel arbenigwr iechyd amgylcheddol *neu* iechyd y cyhoedd, ar lefelau gweithredol a strategol;

- Gwybodaeth drylwyr a phrofiad gweithredol o reoli argyfwng ar lefel strategol a'r gallu i reoli'n gymwys mewn sefyllfa o argyfwng;

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol a'r gallu i rwydweithio a gweithio ar y cyd â meysydd gwasanaeth eraill a chyda rhanddeiliaid o amrywiaeth eang o gymunedau, sefydliadau ac asiantaethau ar bob lefel;

- Y gallu i ddeall arwyddocâd tystiolaeth ymchwil mewn meysydd gwyddoniaeth a datblygu polisi newydd sy'n berthnasol i iechyd yr amgylchedd/y cyhoedd a'r gallu i'w ddehongli'n briodol;

- Y gallu i arwain, i ddylanwadu ac i ysgogi eraill i gyflawni canlyniadau polisi sy'n sensitif yn wleidyddol ac sy'n canolbwyntio'n strategol;

- Y gallu i ymgysylltu a chynghori Gweinidogion y Llywodraeth ar faterion uchel eu proffil o ran yr amgylchedd/iechyd y cyhoedd a gwybodaeth am lywodraethu'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

5. Sut i wneud cais

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rheini a wneir yn Saesneg. Dylid cyflwyno ceisiadau drwy system ar-lein Llywodraeth Cymru erbyn **16:30 ar 10 Awst 2020.** I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad cyfrif e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu gyda chi ynglŷn â'r broses ddethol.

Bydd y swydd yn cau'n awtomatig am **16:30 ar 10 Awst 2020**. Os ydych wrthi'n cyflwyno'ch cais a heb gwblhau erbyn yr amser cau, ni fydd y system yn caniatáu ichi gwblhau'r broses ymgeisio.

Os oes gennych anghenion sy'n golygu na allwch wneud cais ar-lein, anfonwch neges e-bost at: SCSrecruitment@llyw.cymru i ofyn am becyn ymgeisio mewn fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig ag anghenion, er mwyn cyflwyno'ch cais.

Gwybodaeth am amrywiaeth

Mae'r Gwasanaeth Sifil wedi ymrwymo i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu, ar bob lefel, gan gynnwys y lefelau uchaf. Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. Ni fydd y ffurflen hon yn cael ei datgelu i unrhyw un sy'n asesu'ch cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb ei ateb.

Fel rhan o'r broses recriwtio, mae'n ofynnol i chi ddarparu'r canlynol:

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau;
- CV diweddar sy'n cynnwys manylion hanes eich gyrfa gyda chyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol;
- Datganiad personol heb fod yn fwy na dwy ochr A4 yn esbonio sut y mae'ch cymwysterau, sgiliau, rhinweddau a phrofiadau proffesiynol yn eich gwneud yn addas i'r swydd ac, yn benodol, sut rydych yn bodloni manyleb y person.

Y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru'n sefydliad dwyieithog; cynhyrchir deddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae gan y ddwy iaith statws cyfreithiol cyfartal. Er nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd, byddent yn gaffaeliad. Mae'n rhaid i'r Dirprwy Gyfarwyddwr ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a rhannu ein hymrwymiad i hyrwyddo a phrif-ffrydio'r Gymraeg. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu Cymraeg, datblygu eu Cymraeg a defnyddio eu Cymraeg yn y gweithle.

Cwestiynau a Thrafodaeth Anffurfiol

Os hoffech drafod y swydd hon ymhellach cyn gwneud cais, **ffoniwch Dr Frank Atherton ar 03000 259911**

Problemau technegol ar-lein
Anfonwch e-bost at **SCSRecruitment@llyw.cymru**

6. Y Broses Ddethol

Trosolwg

Bydd y Tîm Recriwtio yn cydnabod eich cais drwy system Llywodraeth Cymru, a phan fydd hynny'n briodol byddwch yn cael gwybod am ganlyniad y cyfarfod i lunio'r rhestr fer. Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n mynd yn eu blaenau i'r cam dethol nesaf gwblhau profion seicometrig ar-lein a pharatoi briff ysgrifenedig i'w gyflwyno i'r panel dethol ar ddiwrnod y cyfweliadau. Bydd y ddwy weithgaredd yn rhan o'r asesiad cyffredinol sydd ei angen ar gyfer yr ymarfer recriwtio hwn, yn ogystal â'r cyfweliad â'r panel dethol.

Asesiadau

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael:-

Profion seicometrig ar-lein

Bydd y rhain yn cynnwys profion ymresymu rhifyddol a llafar a thrafodaeth gyda seicolegydd. Byddwch yn cael dolen at y profion ar-lein ymhen 10 diwrnod i gyfarfod llunio'r rhestr fer. Cynhelir y cyfarfod llunio rhestr fer ar **17 Awst 2020.**
Nodwch - Os ydych chi wedi gwneud y profion seicometrig ar-lein yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fydd angen ichi wneud y profion hyn eto ar gyfer yr ymarfer recriwtio hwn.

Briff i'w gyflwyno i'r panel

Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael testun i'w ystyried a bydd gofyn iddynt baratoi cyflwyniad 5 munud a'i gyflwyno i'r panel cyfweld ar **14 Medi 2020**. Bydd cyflwyniadau'n cael eu cyflwyno heb ddefnyddio dyfeisiadau electronig; fodd bynnag, mae croeso i ymgeiswyr ddefnyddio cardiau cof.

Cyfweliadau

Mae'r cyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer **14 Medi 2020.** Byddant yn cael eu cynnal yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Bydd y cyfweliadau yn para rhyw 45 munud.

Bydd y panel yn cael adborth ar ôl ichi gwblhau'ch profion seicometrig a phrofion ymgysylltu rhanddeiliaid/staff cyn ichi gael cyfweliad. Bydd eich cyfweliad yn seiliedig ar gymwyseddau a fydd yn ystyried sut y mae eich sgiliau a'ch profiad fel y'u hamlinellir yn eich CV a'ch datganiad personol yn bodloni gofynion y swydd hon.

Os gofynnir i ymgeiswyr baratoi cyflwyniad ar gyfer eu cyfweliad, byddant fel arfer yn cael un wythnos o rybudd ynglŷn â'r testun. Nodwch y bydd cyflwyniadau'n cael eu cyflwyno heb ddefnyddio dyfeisiau llaw neu dyfeisiadau electronig; fodd bynnag, mae croeso i ymgeiswyr ddefnyddio cardiau cof.

Y Panel

Bydd y panel dethol fel a ganlyn:

- James Owen (Cadeirydd y Panel), Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Maes Rheoli Tir
- Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru
- Sanjiv Vedi, Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
- Julie Barratt, cyn-Gyfarwyddwr Cymru – Sefydliad Siartredig Iechyd y Cyhoedd

Bywgraffiadau'r panel dethol

James Owen

Ar hyn o bryd rwy'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Maes Rheoli Tir yn Llywodraeth Cymru.

Ymunais â'r Gwasanaeth Sifil yn 2001, ac rwyf wedi mwynhau gyrfa gyfoethog a gwerth chweil ers hynny. Treuliais y rhan fwyaf o'm gyrfa gyda Llywodraeth Cymru, ond rwyf hefyd wedi gweithio i Swyddfa'r Cabinet yn Whitehall. Rwy'n arbenigo mewn datblygu sefydliadol a thrawsnewid, ac rwyf wedi gweithio mewn amrywiol rolau arweiniol i foderneiddio arferion gwaith, gwella amgylchedd y swyddfa ac ysgogi pobl i newid ymddygiad.

Symudais i'm swydd newydd yn ddiweddar. Cyn hyn roeddwn yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol, ac yn gyfrifol am swyddogaeth pobl strategol Llywodraeth Cymru. Rhan orau'r swydd hon oedd helpu pobl o bob cefndir i gyflawni eu potensial. Mae'n wych gweld y gwahaniaeth cadarnhaol y mae ein gweision sifil yn ei wneud i gefnogi Gweinidogion Cymru, ar ran pobl Cymru. Dyna'r union reswm pam yr ymunais â'r Gwasanaeth Sifil a Llywodraeth Cymru.

Mae gen i deulu ifanc, ac mae'r sefydliad wedi bod yn anhygoel o gefnogol a hyblyg i'm helpu i sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng bod yn Uwch Was Sifil ac yn Dad. Rwyf hefyd yn gefnogol iawn o'n rhwydweithiau Menywod a staff LHDT+. Mae hynny'n golygu fy mod yn cefnogi cydweithwyr ar draws y sefydliad, drwy fentora unigolion a bod yn bresennol mewn digwyddiadau rheolaidd â'r nod o ddathlu ein hamrywiaeth.

Frank Atherton

Ymgymerodd Frank â'i swydd fel Prif Swyddog Meddygol, Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru, ym mis Awst 2016.

Graddiodd Frank mewn meddygaeth o Brifysgol Leeds a bu'n gweithio mewn swyddi ysbyty a gofal sylfaenol o amgylch gogledd Lloegr am nifer o flynyddoedd cyn ymgymryd â gwaith gwirfoddol fel Swyddog Meddygol Ardal ym Malawi. Ar ôl dychwelyd i'r DU, cwblhaodd hyfforddiant arbenigol mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd yn Rhanbarth Swydd Efrog ac yna bu'n gweithio ar faterion iechyd a datblygu rhyngwladol ar gyfer Sefydliad Iechyd y Byd ac adran Datblygu Rhyngwladol y DU mewn gwahanol leoliadau gan gynnwys yr Hen Iwgoslafia, Tanzania a Bangladesh. O 2002 hyd 2012 bu Frank yn gweithio fel Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yn swydd Gaerhirfryn ac o 2008 hyd 2012 bu hefyd yn Llywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd (ADPH) yn y DU. Yn 2012 symudodd Frank i Ganada i dderbyn swydd fel Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Iechyd yn Adran Iechyd a Lles Nova Scotia.

Sanjiv Vedi

Mae Sanjiv Vedi yn fab balch i ymfudwr economaidd a gyrhaeddodd y DU o Nairobi, Kenya.

Graddiodd Sanjiv o Brifysgol Caerdydd. Cymhwysodd yn y gyfraith a gwleidyddiaeth. Mae ganddo hefyd dystysgrif ôl-radd mewn Arweinyddiaeth. Ar hyn o bryd, mae'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol, Rheolwr Risg Diogelu sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru.

Mae ei rôl yn ymwneud â rheoli'r berthynas â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, gan sefydlu Llywodraeth Cymru fel sefydliad 'diogel' ac yn ogystal, mae'n gyfrifol am bolisi a gweithdrefn gwyliadwriaeth gudd Llywodraethau Cymru.

Mae ei swyddi blaenorol yn cynnwys:

- Pennaeth cyswllt a chwynion yr Ombwdsmon
- Prosiectau arbennig Adnoddau Dynol; (Cydraddoldebau, Meincnodi a Gosod Gorwelion);
- Dirprwy Gyfarwyddwr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo Cymru a De Orllewin Lloegr
- Pennaeth yr Uned Sector Gwirfoddol a Chynhwysiant.
- Treuliodd flwyddyn hefyd ar secondiad yn y Prince's Trust, Cymru.

Mae ganddo hanes hir yn y sector gwirfoddol ac mae wedi ymgymryd â sawl rôl gan gynnwys:

- Llywydd Undeb y Myfyrwyr Asiaidd cyntaf mewn Prifysgol yng Nghymru (1983);
- Cynghorydd lleol Asiaidd ieuengaf (1986 – ieuengaf ar y pryd)
- Aelod o Bwyllgor Cysylltiadau Hiliol TUC y DU a Gweithgor Hil a Senoffobia ETUC;
- Aelod sefydlol y Gynghrair Gwrth Hiliaeth.
- Cadeirydd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru;
- Cyfarwyddwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Ymddiriedolaeth Pêl-droed yn y Gymuned.

Ar hyn o bryd mae'n Is-gadeirydd Plant mewn Angen y BBC yng Nghymru; Pwyllgor Ymgynghorol Apêl y BBC a Chyfarwyddwr Hendre (Elusen Tai a Gofal) a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu TG, aelod o Fwrdd UpRising, ac aelod o fwrdd pwyllgor apeliadau tiroedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Mae rhai o'i gyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Derbyn anrhydedd 'Cydnabod Cyflawniad' gan Brif Weinidog Llywodraeth Cymru y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC;
- Cyflwyno'r achos i ddiwygio Cytuniad Rhufain yn llwyddiannus, a agorodd y drysau i'r comisiwn gyhoeddi cyfarwyddebau cydraddoldeb;

- Ymgyrchu'n llwyddiannus ar gyfer adnewyddu cytundeb y Môr-tawel Affricanaidd Caribïaidd a arweiniodd at sicrhau bod dros 100,000 o bobl yn cadw eu swyddi yn y gwledydd hynny;
- Perswadio dros 600 o'r 635 o awdurdodau lleol yn y DU i newid eu cytundeb tenantiaeth i droi cyflawnwyr aflonyddu hiliol allan o'u tai;
- Arwain dirprwyaeth i Dde Affrica yn cyfarfod y Comisiwn Gwirionedd a Chymod, Esgob Tutu a'r Arlywydd Mandela.

Julie Barratt

Mae Julie Barratt yn Ymarferydd Iechyd Amgylcheddol ac yn Fargyfreithiwr. Ymddeolodd o swydd Cyfarwyddwr Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru yn 2018, ar ôl bod yn y swydd am 15 mlynedd.

Bu Julie yn ymarfer iechyd yr amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr am ddeng mlynedd, a bu'n astudio'r gyfraith drwy Brifysgol Llundain (Is-adran Allanol) yn ystod y tair blynedd olaf. Yna cymhwysodd fel bargyfreithiwr a threuliodd 20 mlynedd yn ymarfer y gyfraith mewn ymarfer preifat ac mewn Llywodraeth Leol, gan arbenigo mewn cyfraith rheoleiddio. Yna cymerodd swydd newydd sbon Cyfarwyddwr Cymru ar gyfer Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, gan ymddeol o'r swydd honno ym 2018 i redeg ei chwmni hyfforddiant cyfreithiol ei hun. Mae ganddi broffil uchel yn y cyfryngau ac mae'n cyfrannu'n aml at raglenni radio a theledu yn ogystal â chyflwyno papurau mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol.

Hi yw awdur '*Investigation and Prosecution: practical guidance for local authority enforcement officers*' ac '*Enforcement Notices; practical guidance for local authority enforcement officers*' ac fe ysgrifennodd golofn gyfreithiol fisol yn y cyfnodolyn iechyd amgylcheddol am 16 mlynedd.

Rolau proffesiynol
Aelod Bwrdd y Gymdeithas Dai Siartredig/Grŵp Seren 2004-08
Aelod Bwrdd Cyngor Defnyddwyr Cymru - Mehefin 2006 hyd at ddiddymiad y Bwrdd ym Medi 2008.
Cynrychiolydd defnyddwyr ar Fwrdd Llywodraethu FoodCheck Limited o fis Rhagfyr 2005 hyd nes i SAI Global gymryd yr awenau yn 2011. Wrth barhau â'i rôl fel cynrychiolydd defnyddwyr daeth yn Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu tan fis Rhagfyr 2013. Yn dilyn newid yng nghyfeiriad y cwmni, cymerodd rôl cynrychiolydd defnyddwyr ym Mwrdd Uniondeb Intertec Limited am 3 blynedd.
Bwrdd Rhanddeiliaid ac Aelodau UWIC/Prifysgol Metropolitan Caerdydd (2008 – presennol).
Aelod o Grŵp Cynghori Canolfan Gydweithredol WHO (Buddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles) 2019 - presennol

Cyflawniadau personol
2009 Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Anrhydeddus Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (Prifysgol Metropolitan Caerdydd bellach)
2000 Derbyn gwobr Llywyddion Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
1987 Enillydd gwobr Morley Parry ar gyfer Gweithiwr Iechyd yr Amgylchedd Ifanc y Flwyddyn

Cynllun Cyfweliad Hyderus o ran Anabledd

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i wneud cais am swydd gyda Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweliad i bobl anabl sy'n diwallu'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy’n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae’n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen ichi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os bydd eich cais yn llwyddiannus, anfonwch e-bost at scsrecruitment@llyw.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich pryderon a'ch anghenion.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl.

Cymwyseddau

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr hefyd ddangos bod ganddynt yr holl sgiliau arwain a'r sgiliau craidd y mae disgwyl i uwch-weision sifil feddu arnynt fel rhan o fframwaith cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil.

I gael rhagor o wybodaeth am gymwyseddau craidd, dilynwch y ddolen isod i'r ddogfen gyfan: https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2019-10/civil-service-competency-framework-2012-2017-update-cy.pdf

Mae disgwyl i bob gwas sifil gydymffurfio â Chod y Gwasanaeth Sifil. Mae copi o God y Gwasanaeth Sifil i'w weld yn Atodiad B

Amserlen fras

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: **10 Awst 2020**

Prawf seicometrig - o fewn 10 niwrnod i gyfarfod llunio'r rhestr fer.

Cyfarfod Llunio'r Rhestr Fer: **17 August 2020**

Cyfweliadau: **14 Medi 2020**

7. **Telerau'r Penodiad**

Mae hon yn swydd barhaol, ac mae ar gael i weithwyr parhaol Gwasanaeth Sifil y DU (a recriwtiwyd drwy gystadleuaeth deg ac agored) neu ar sail symud ar draws neu ddyrchafiad. Mae'r swydd hon hefyd ar gael ar sail barhaol i'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r gwasanaeth sifil ac i'r rhai sy'n dymuno gwneud cais ar sail secondiad.

Tâl

Mae'r rôl hon ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr ac rydym yn cynnig cyflog o £70,000 y flwyddyn a fydd yn codi i £75,050 wedi perfformiad boddhaol dros 2 flynedd. Os ydych yn ymgeisio am y swydd hon ar sail ran-amser bydd eich cyflog blynyddol yn gyflog pro rata yn seiliedig ar y cyflog amser llawn o £70,000 y flwyddyn.

Secondiad

Mae'r rôl hon ar gael ar secondiad am hyd at bedair blynedd. Os ydych yn ymgeisio am y swydd hon ar sail secondiad, byddwch yn cadw'ch telerau ac amodau presennol, gan gynnwys cyflog.

Gweithwyr sydd eisoes yn Weision Sifil

Os ydych yn ymgeisio ar draws am y swydd hon, byddwch yn cadw'ch cyflog blynyddol presennol pan gewch eich trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Fel arfer, bydd y cyflog cychwynnol ar ôl cael dyrchafiad i'r Uwch Wasanaeth Sifil 10% yn fwy na'r sylfaen cyflog, neu bydd ar lefel isaf band cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil, pa un bynnag fydd y mwyaf. Fodd bynnag, bydd staff sy'n cael dyrchafiad dros dro o uchafswm Gradd 6 yn gweld cap o 5% ar y cynnydd, neu bydd ar lefel isaf band cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil, pa un bynnag yw'r swm mwyaf. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gyflog cychwynnol yn achos dyrchafiad yn cyfeirio at hyn.

Lleoliad

Gall deiliad y swydd weithio o unrhyw Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghymru, fodd bynnag oherwydd natur y gwaith a'r angen i gwrdd â Gweinidogion bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio o Gaerdydd yn ôl y gofyn (tua 1-2 diwrnod yr wythnos yn ôl pob tebyg).

Adleoli

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gymorth ar gael tuag at adleoli

Oriau a gweithio hyblyg

Mae'r rôl hon ar gael ar sail ran-amser neu amser llawn. Os byddwch yn gwneud cais fel partneriaeth rhannu swydd, disgwylir i'r trefniant fod yn ei le pan fyddwch yn cyflwyno eich cais felly dylech sicrhau ei bod yn glir ar eich ffurflenni cais eich bod yn ymgeisio fel rhan o bartneriaeth rhannu swydd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gweithio'n rhan-amser ac os bydd rhywun sydd am weithio'n rhan-amser yn llwyddiannus, byddwn yn gwneud addasiadau cymesur i gyfrifoldebau'r swydd.

Gweithio'n Glyfar

Mae Llywodraeth Cymru yn annog trefniadau gweithio'n glyfar. Mae Gweithio'n Glyfar yn canolbwyntio ar sut rydych yn defnyddio'ch amser a ble a sut rydych yn gweithio i ddiwallu anghenion y busnes yn y ffordd fwyaf hyblyg a chynhyrchiol bosibl. Gan ddibynnu ar anghenion busnes, bydd hyn yn rhoi llawer iawn o hyblygrwydd i staff o ran oriau a lleoliad gwaith.

Dyrchafiad

Os yw gweithiwr sydd eisoes yn was sifil yn cael ei ddyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil neu oddi fewn iddo, bydd ei hawl i wyliau blynyddol yn seiliedig ar hyd ei gyflogaeth barhaus yn y Gwasanaeth Sifil, fel y gwelir isod.

Gwyliau Blynyddol

Mae'r gwyliau blynyddol a nodir isod yn seiliedig ar batrwm gweithio amser llawn. Os ydych yn gweithio'n rhan-amser, caiff eich gwyliau blynyddol eu cyfrif ar sail eich patrwm gweithio rhan-amser.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei benodi yn unol â thelerau ac amodau diweddaraf yr Uwch Wasanaeth Sifil.

Hyd gwasanaeth

- Hyd at 1 flwyddyn – hawl i 25 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol
- 1 flwyddyn – hyd at 2 flynedd – hawl i 26 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol
- 2 flynedd – hyd at 3 blynedd – hawl i 27 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol
- 3 blynedd – hyd at 4 blynedd – hawl i 28 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol
- 4 blynedd – hyd at 5 mlynedd – hawl i 29 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol
- 5 mlynedd neu ragor – hawl i 30 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol

Ymddeol

Nid oes oedran ymddeol gorfodol ar gyfer uwch-weision sifil.

Telerau a Buddion

- Cynllun Pensiwn: www.civilservice-pensions.gov.uk
- Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys cwnsela a gofal llygaid.
- Darpariaethau absenoldeb gan gynnwys:
- Amser i Ffwrdd i Ofalwyr
- Absenoldeb rhiant a rennir
- Absenoldeb mamolaeth gyda thâl a heb dâl
- Absenoldeb tadolaeth hyblyg gyda thâl

Gwrthdaro buddiannau

Dylai ymgeiswyr nodi bod yn rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at gwestiynau am y ffordd y maent yn ymdrin â busnes Llywodraeth Cymru.

Rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau busnes perthnasol, cyfranddaliadau, swyddi mewn awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, o ran eu hunain ac o ran eu priod/partner.

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus roi'r gorau i unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro, ac mae'n bosibl y caiff ei fuddiannau busnes ac ariannol eraill eu cyhoeddi.

Y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol

Daw'r swydd hon o dan y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol.

Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl gwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac mae'n cael diweddariadau rheolaidd ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r Llywodraeth yn gweithio i gyrraedd ei tharged i sicrhau mai menywod fydd 50% o'r Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2020 ac i gynyddu nifer y bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn yr Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2025.

I wneud hynny, rydym wedi ymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth ac i ddathlu gwahaniaeth yn ein gweithlu, gyda'r nod o fod yn esiampl i eraill o ran amrywiaeth a chynhwysiant. Ar hyn o bryd, rydym yn 8fed ar restr Stonewall o 100 cyflogwr gorau'r DU. Rydym yn un o Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, yn sefydliad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 3 (Arweinydd) a gwnaethom ennill statws aur a:gender yn 2018. Yn allweddol ar gyfer cefnogi'r gwaith hwn a rhoi cefnogaeth i gymheiriaid mae pedwar Rhwydwaith Staff sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd (Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS); Rhwydwaith Staff o Leiafrifoedd Ethnig (MESN); PRISM (LHDT+) a Menywod Ynghyd. Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o bobl anabl, pobl o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, menywod a phobl LHDTRh+ yn Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, ac rydym yn eich annog i ymgeisio os ydych yn perthyn i un o'r grwpiau hyn.

Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil

Mae prosesau recriwtio Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr egwyddor o benodi yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel y nodir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil sydd i'w gweld yn: http://civilservicecommission.independent.gov.uk/

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r Egwyddorion Recriwtio, ac os hoffech wneud cwyn, dylech gysylltu â Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol drwy e-bost peter.kennedy@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ yn y lle cyntaf.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch oddi wrth Lywodraeth Cymru, gallwch gysylltu â Swyddfa Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Gwiriadau cyn penodi

Cyn y gellir cadarnhau bod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i benodi, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau cefndir a diogelwch. Fel rhan o hyn, bydd angen inni gadarnhau eich hunaniaeth, eich cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo, a chofnod troseddol (collfarnau heb ddarfod yn unig). Rhaid bod gan yr ymgeisydd llwyddiannus gliriad diogelwch ar lefel Gwiriad Diogelwch, neu rhaid iddo fod yn barod i gael cliriad diogelwch ar y lefel honno, cyn dechrau ar y swydd. Gall yr amserlen ar gyfer cael cliriad diogelwch amrywio ond mae'n gallu cymryd rhwng 8 ac 10 wythnos o ddyddiad derbyn y gwaith papur wedi'i gwblhau.

Atodiadau

Atodiad A: Datganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil

Mae'r datganiad arweinyddiaeth i'w weld yma:
https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-leadership-statement/civil-service-leadership-statement

Atodiad B: Cod y Gwasanaeth Sifil

Mae Cod y Gwasanaeth Sifil i'w weld yn:

https://beta.llyw.cymru/cod-y-gwasanaeth-sifil